Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (171)
Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2005

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1** - Cynnig i ethol aelod i`r Pwyllgor Busnes

**Eitem 2** - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Eitem 3** - Datganiad Busnes

**Eitem 4** - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Effeithiau cryptosporidiosis yng nghyflenwad dwr y Gogledd-orllewin

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 5** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005

**Eitem 7** - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005

**Eitem 8** - Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

**Eitem 9** - Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) Reoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2005

**Eitem 10** - Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio) 2005

**Eitem 11** - Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru

**Eitem 12** - Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gweithgor Gofal Plant

......................................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol aelod i`r Pwyllgor Busnes

**NDM2407 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4 a 13.2 yn ethol Lisa Francis (Ceidwadwyr) i’w Bwyllgor Busnes yn lle David Melding (Ceidwadwyr).

......................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

......................................

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

......................................

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Effeithiau cryptosporidiosis yng nghyflenwad dwr y Gogledd-orllewin

......................................

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth.***

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM2694 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd

Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngu (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngu (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2005;
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngu (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau

.....................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005

**NDM2695 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005.

**NDM2696 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005; a
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y memorandwm cywiriadau

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005

**NDM2697 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2005.

**NDM2698 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2005;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion

**NDM2699 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.3:

Yn cymeradwyo'r drafft, Cod Ymarfer drafft ar Ddefnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac y gosodwyd copïau ohono yn Llyfrgell yr Aelodau ar 22 Tachwedd 2005; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Cod hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno.* *Dalier sylw: mae'r ffeil hwn yn 3mb. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*
Memorandwm Esboniadol

....................................

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) Reoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2005

**NDM2700 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r drafft, Reoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Reoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Gweddillion Uchaf mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 25 (Rhan 3) Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio) 2005

**NDM2701 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo'r drafft, Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio) 2005 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

......................................

## Eitem 11 - Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru

**NDM2702 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr argyfwng yn niwydiant llaeth Cymru ac yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a) rhoi cefnogaeth effeithiol i gynnal cyfleusterau prosesu;
b) datblygu gallu yn y sector prosesu llaeth; ac
c) mynd i'r afael â phrisiau annaturiol o isel am laeth wrth lidiart y fferm.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru:

a) sicrhau bod y strategaeth datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant prosesu llaeth i economi Cymru; a
b) sicrhau bod strategaethau creu cyfoeth cynaliadwy yn estyn y tu hwnt i goridorau'r M4 a'r A55.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gryfhau'r economi wledig drwy:

a) cyflwyno llaeth ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn, adeiladu ar lwyddiant llaeth ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 1;

b) helpu i sefydlu brand llaeth bargen deg i Gymru er mwyn, sicrhau pris teg i gynhyrchwyr,

proseswyr a phob rhanddeiliad allweddol yn y gadwyn gyflenwi.

.....................................

## Eitem 12 - Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gweithgor Gofal Plant

**NDM2703 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r Strategaeth Gofal Plant "Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant"; ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Gweithgor Gofal Plant.

2. Yn cymeradwyo nod y strategaeth o ehangu darpariaeth gofal plant o safon yng Nghymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

(1)
(2+3+4+ 5)
(6)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 2, cynnwys 'fforddiadwy' ar ôl "plant" .

Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau y bydd unrhyw gyfrifoldebau newydd ar gyfer llywodraeth leol dan y Strategaeth Gofal Plant yn cael eu hariannu'n llawn.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y dylai anghenion penodol plant ag Anghenion Addysgol Arbennig gael eu hadlewyrchu a'u cefnogi'n llawn yn y strategaeth.

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod y diffyg gofal plant fforddiadwy y'n rhwystr sylweddol sy’n atal llawer o fenywod rhag bod yn economaidd weithgar.

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod gwasanaeth o safon uchel ym maes gofal plant yn dibynnu ar gael gweithlu profiadol llawn cymhelliant.

**Gwelliant 6 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n mynd i’r afael â’r gwrth-ddweud sy’n codi pan fydd Canllawiau Awdurdodau Lleol a Chanllawiau’r Heddlu’n anghyson â’r gwaith o gyflawni amcanion gofal plant y Cynulliad Cenedlaethol.

Dogfennau Ategol
*Anfonwyd copi o’r Strategaeth Gofal Plant "Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant" at Aelodau’r Cynulliad ar 22 Tachwedd 2005. - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

**.......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 30 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**